**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MB/MD/0433/14
Aelodau'r Cynulliad

28 Chwefror 2014

Annwyl Aelod

Ar 28 Ionawr, yn fy ymateb i gwestiwn Darren Millar (WAQ66308) ynghylch rhaglen WEDINOS (Prosiect Cyffuriau Newydd ac Adnabod Sylweddau Newydd Cymru), ymrwymais i sicrhau bod crynodeb ar gael o'r achos busnes ar gyfer prosiect WEDINOS.

Byddaf yn sicrhau bod copi o'r llythyr hwn a chrynodeb o'r achos busnes yn cael eu gosod yn llyfrgell yr aelodau.

Yn gywir
Mark Drakeford

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Mark Drakeford AC / AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MB/MD/0433/14
Assembly Members

28 February 2014

Dear colleague

On 28 January in my response to Darren Millar's question (WAQ66308) regarding the WEDINOS (Welsh Emerging Drugs and Identification of Novel Substances) programme I gave a commitment to ensure that a summary of the business case for the WEDINOS project is made available.

I will ensure that a copy of this letter and the business plan summary are placed in the members' library.

Yours sincerely
Mark Drakeford

**Mark Drakeford AC / AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Summary Business Case for WEDINOS**

**(Welsh Emerging Drugs and Identification of Novel Substances)**

## Purpose

This paper was developed by the Advisory Panel on Substance Misuse (APoSM) 'New Psychoactive Substances' (NPS) subgroup in response to the growing use of novel psychoactive drugs in Wales, with the associated health harms and implications for social and criminal justice services. This paper outlines the recommendations for action in Wales with regard to new psychoactive substances from 2012 as part of the Welsh Government Substance Misuse Strategy 'Working Together to Reduce Harm' strategy implementation plan 2012-2015.

*Definition: New psychoactive substance: A new narcotic or psychotropic drug, in pure form or in preparation, that is not controlled by the 1961 United Nations Single Convention on Narcotic Drugs or the 1971 United Nations Convention on Psychotropic Substances, but which may pose a public health threat comparable to that posed by substances listed in these conventions (Council Decision 2005/387/JHA)* Reference Drugs in focus, responding to new psych substances.

## Background

Information from a number of sources in the UK including Wales, such as monitoring systems, epidemiological research and drug analysis suggest that users of new psychoactive substances (NPS) are at risk of a number of serious adverse effects on health. Principally these include the direct physical, psychological and behavioural effects from the broad range of drugs that users take, as well as indirect effects from increased burden on NHS resources (in particular emergency services) primary care and mental health services as well as on the criminal justice system. In addition, whilst the impacts outlined above reflect the short term consequences, it is not possible to predict the extent of future harm.

Following the recognition of this growing concern in relation to this, the Advisory Panel on Substance Misuse (APoSM) convened a sub group to provide a Wales wide response. It was found that there was a current project in place (WEDINOS – Welsh Emergency Departments Illicit Novel Substances Group) which had been developed by number of proactive clinicians within A & E departments and pathology in South Wales, led by Dr David Caldicott. The project was designed to record the symptoms of those presenting at A & E in Gwent having consumed these substances, and a testing mechanism where samples of the drug are available to

test. The sub group proposed national roll out of this project and consequently this business case was developed by Public Health Wales to provide recommendations for further development and expansion of the WEDINOS service covering education, prevention, harm reduction and availability. The expansion also resulted in a change of name to the Welsh Emerging Drugs and Identification of Novel Substances.

The business case is based on recommendations from a UK report published in 2011 by the Advisory Council on the Misuse of Drugs (ACMD) - Consideration of the Novel Psychoactive Substances ('Legal Highs'). The recommendations within the ACMD report (see Appendix 1) focus on the identification, pharmacology, toxicity and social harms of NPS whilst also reiterating the importance of ensuring any knowledge gained is disseminated in order to reduce harm within the wider population. It built upon recommendations of the ACMD including the collection and testing of substances, dissemination of timely and accurate information to both general and targeted populations regarding the make up of specific NPS, the potential physical, psychological and behavioral harms that may result as a consequence of use, and pragmatic public health harm reduction information and advice. In addition it is proposed that findings will be shared with any UK wide and European early warning systems.

**Recommendations**

The recommended actions outlined in this paper aim to identify and address the key risks posed by this form of drug use and to support the development of programmes that minimise the risks to individual and the impact on services. The overarching aims are:

1. The establishment of a network of robust data sources and data collection systems to assess prevalence, associated harms (physical, psychological and behavioural) and impact on services designed to address these harms
2. The collection and testing of new psychoactive substances in order to further evidence the potential harms of substances entering the market. Currently in Wales, the Cardiff Toxicology Laboratories at University Hospital, Llandough provides chemical testing of an extensive range of licit and illicit substances. However, the equipment at its disposal does not currently have the necessary sophistication to quickly identify NPS, particularly for NPS emerging onto the rapidly evolving market. The analytical technique know as Nuclear Magnetic Resonance (NMR) spectroscopy is the technique par excellence for absolute determination of drug structure, particularly for novel emerging agents, and is available within Cardiff University. Recent developments by a number of key clinicians and scientists has led to the establishment of a testing system 'WEDINOS' where by NPS users who attend emergency departments are able to provide a sample of the drug they have taken and to describe the symptoms being experienced, whilst receiving treatment. This paper recommends expansion of the WEDINOS system across Wales.
3. Dissemination of timely and accurate information to both general and targeted populations at specific risk and providers of health and criminal justice services with regards to the makeup of specific NPS, the potential physical, psychological and behavioural harms that may result as a consequence of use, and pragmatic public health harm reduction information and advice. This

represents essentially an ‘early warning system’ with a central point of dissemination and co-ordination of information outputs. The establishment of the collection and testing mechanisms outlined above will facilitate the availability of timely information regarding the content and legal context of NPS used in Wales and this information will be fed back via a dedicated website and ‘Emerging findings’ newsletters to all those using or working with those who are using NPS. In addition, these findings will be utilised by the UK focal point and European Monitoring Centre for Drugs and Drug Addiction (EMCDDA) early warning systems as part of an integrated system.

**APPENDIX 1**

**Extract: Recommendations from UK Advisory Council Misuse Drugs Report**

**Recommendation 1** - The UK should be proactive in developing EU and international networks to address the issue of NPS

**Recommendation 4** – The application of the Misuse of Drugs Act 1971 would be aided by continued capability developments in the area of chemical standards, analytical capability and forensic detection of compounds

**Recommendation 8** – Provide resources for research on the chemistry, pharmacology, acute harm (toxicity) and social harms on NPS

**Recommendation 11** – The government raise public awareness around NPS and implement strategies to reduce the demand NPS by including NPS in substance misuse education in schools; developing targeted prevention initiatives and also treatment for those with acute problems (e.g. within A & E) and dependency. The following tools should be utilised to counter the prevalence of NPS use:

- Training
- Monitoring
- Information and advice for NPS users
- Wider public information

**Recommendation 12** – there should be investment by commissioners and health research bodies to enable them to collectively build evidence practice and disseminate this

**Recommendation 13** – that the demand reduction strategies should be developed including education, prevention and treatment interventions

Full report and recommendations available at – http://www.homeoffice.gov.uk/publications/agencies-public-bodies/acmd1/acmdnps2011?view=Binary

**Achos Busnes Cryno i WEDINOS**

**(Cyffuriau sy'n Ymddangos yng Nghymru ac Adnabod Sylweddau Newydd)**

## Diben

Datblygwyd y papur hwn gan is-grŵp 'Sylweddau Seicoweithredol Newydd' y Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau (APoSM) mewn ymateb i'r twf yn y defnydd o gyffuriau seicoweithredol newydd yng Nghymru, a'r niwed cysylltiedig i iechyd a'r goblygiadau i'r gwasanaethau cymdeithasol a chyfiawnder troseddol. Mae'r papur hwn yn amlinellu'r argymhellion ar gyfer gweithredu yng Nghymru o safbwynt sylweddau seicoweithredol newydd o 2012 fel rhan o gynllun gweithredu Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru 'Gweithio gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' 2012-2015.

*Diffiniad: Sylwedd seicoweithredol newydd: Cyffur narcotig neu seicotropig, mewn ffurf pur neu mewn cymysgedd, nad yw'n cael ei reoli gan Gonfensiwn Sengl ar Gyffuriau Narcotig y Cenhedloedd Unedig 1961 neu Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Sylweddau Seicotropig, ond a allai fod yn fygythiad i iechyd cyhoeddus tebyg i'r hyn a greir gan y sylweddau a restrir yn y confensiynau hyn (Penderfyniad y Cyngor 2005/387/JHA)* Cyfeiriad Drugs in focus, responding to new psych substances.

## Cefndir

Mae gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn y DU yn cynnwys Cymru, megis systemau monitro, ymchwil epidemiolegaidd a dadansoddi cyffuriau yn awgrymu fod defnyddwyr sylweddau seicoweithredol newydd (SSN) mewn perygl o ddioddef nifer o effeithiau andwyol difrifol ar iechyd. Mae'r rhain yn cynnwys yn bennaf yr effeithiau corfforol, seicolegol ac ymddygiadol uniongyrchol o'r ystod eang o gyffuriau y mae defnyddwyr yn eu cymryd, yn ogystal ag effeithiau anuniongyrchol yn sgil y baich cynyddol ar adnoddau'r GIG (yn enwedig y gwasanaethau brys), gwasanaethau gofal sylfaenol ac iechyd meddwl yn ogystal ag ar y system cyfiawnder troseddol. Yn ychwanegol, er bod yr effeithiau a amlinellir uchod yn adlewyrchu'r canlyniadau yn y tymor byr, nid oes modd rhagweld hyd a lled y niwed yn y dyfodol.

Yn dilyn cydnabod y pryder cynyddol mewn perthynas â hyn, galwodd y Panel Cynghori ar Gamddefnyddio Sylweddau is-grŵp i ddarparu ymateb Cymru gyfan. Canfuwyd fod prosiect cyfredol yn ei le (WEDINOS - Grŵp Sylweddau Newydd Anghyfreithlon Adrannau Brys Cymru) a oedd wedi cael ei ddatblygu gan nifer o glinigwyr rhagweithiol o fewn adrannau Damweiniau a phatholeg yn Ne Cymru, o

dan arweiniad Dr David Caldicott. Lluniwyd y prosiect i gofnodi symptomau'r rheiny a oedd yn ymddangos mewn Adrannau Damweiniau yng Ngwent wedi defnyddio'r sylweddau hyn, a mecanwaith profi lle mae samplau o'r cyffur ar gael i'w profi. Cynigodd yr is-grŵp dreiglo'r prosiect hwn yn genedlaethol ac felly datblygwyd yr achos busnes hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i roi argymhellion ynghylch datblygu ac ehangu gwasanaeth WEDINOS ymhellach i ymdrin ag addysg, atal, lleihau niwed ac argaeledd. Arweiniodd yr ehangu hefyd at newid yr enw i Adnabod Cyffuriau sy'n Ymddangos a Sylweddau Newydd yng Nghymru.

Seiliwyd yr achos busnes ar argymhellion mewn adroddiad y DU a gyhoeddwyd yn 2011 gan y Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Sylweddau (ACMD) - Ystyried y Sylweddau Seicoweithredol Newydd ('Anterth Cyfreithlon'). Mae'r argymhellion yn adroddiad ACMD (gweler Atodiad 1) yn canolbwyntio ar adnabyddiaeth, ffarmacoleg, gwenwyndra a niweidiau cymdeithasol SSN ac yn ategu hefyd y pwysigrwydd fod unrhyw wybodaeth a geir yn cael ei rannu er mwyn lleihau niwed o fewn y boblogaeth ehangach. Roedd yn adeiladu ar argymhellion yr ACMD yn cynnwys casglu a phrofi sylweddau, lledaenu gwybodaeth amserol a chywir i'r boblogaeth yn gyffredinol a phoblogaethau a dargedwyd ynglŷn â chyfansoddiad SSN penodol, y niweidiau corfforol, seicolegol ac ymddygiadol posibl a allai ddigwydd o ganlyniad i'w defnyddio, a gwybodaeth a chyngor iechyd cyhoeddus ymarferol am leihau niwed. Yn ogystal â hyn, argymhellir y bydd y canfyddiadau'n cael eu rhannu ag unrhyw systemau rhybudd cynnar yn y DU ac Ewrop.

**Argymhellion**

Nod yr argymhellion a amlinellir yn y papur hwn yw adnabod a mynd i'r afael â'r prif risgiau sydd ynghlwm wrth y math hwn o ddefnyddio cyffuriau a chefnogi datblygu rhaglenni sy'n lleihau'r risgiau i'r unigolyn a'r effaith ar wasanaethau. Y nodau trosfwaol yw:

1. Sefydlu rhwydwaith o ffynonellau data cadarn a systemau casglu data i asesu'r amlder, y niweidiau cysylltiedig (corfforol, seicolegol ac ymddygiadol) a'r effaith ar wasanaethau a luniwyd i fynd i'r afael â'r niweidiau hyn.

2. Casglu a phrofi sylweddau seicoweithredol newydd er mwyn cael prawf pellach o niweidiau posibl sylweddau sy'n cyrraedd y farchnad. Ar hyn o bryd yng Nghymru, mae Labordai Gwenwyndra Caerdydd yn Ysbyty'r Brifysgol, Llandochau, yn gwneud profion cemegol ar ystod eang o sylweddau cyfreithiol ac anghyfreithlon. Fodd bynnag, nid yw'r offer sydd ganddo ar hyn o bryd yn ddigon soffistigedig i adnabod SSN yn gyflym, yn enwedig sylweddau sy'n dod i mewn i farchnad sy'n datblygu'n gyflym. Y dechneg ddadansoddol o'r enw sbectrosgopeg Cyseinedd Magnetig Niwclear (NMR) yw'r dechneg orau un i benderfynu strwythur cyffur yn bendant, yn enwedig cyfryngau newydd sy'n ymddangos, ac mae ar gael ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae datblygiadau diweddar gan nifer o glinigwyr a gwyddonwyr allweddol wedi arwain at sefydlu system brofi 'WEDINOS' lle mae defnyddwyr SSN sy'n mynd i adrannau brys yn gallu rhoi sampl o'r cyffur a gymerwyd ganddynt a disgrifio'r symptomau a brofir, wrth dderbyn triniaeth. Mae'r papur hwn yn argymell ehangu'r system WEDINOS ledled Cymru.

3. Lledaenu gwybodaeth amserol a chywir i boblogaethau cyffredinol a rhai a dargedwyd sydd mewn perygl penodol a darparwyr gwasanaethau iechyd a

chyfiawnder troseddol am gyfansoddiad SSN penodol, y niweidiau corfforol, seicolegol ac ymddygiadol posibl a all ddigwydd o ganlyniad i'w defnyddio, a gwybodaeth a chyngor ymarferol iechyd cyhoeddus ar leihau niwed.  Mae hyn yn ei hanfod yn 'system rhybudd cynnar' gyda man canolog i ledaenu a chydlynu allbynnau gwybodaeth.  Bydd sefydlu'r mecanweithiau casglu a phrofi a amlinellwyd uchod yn hwyluso argaeledd gwybodaeth amserol am gynnwys a chyd-destun cyfreithiol y SSN a ddefnyddir yng Nghymru a bydd y wybodaeth hon yn bwydo'n ôl drwy wefan arbennig a llythyrau 'Canfyddiadau Newydd' i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio gyda rhai sy'n defnyddio SSN. Yn ychwanegol, bydd y canfyddiadau hyn yn cael eu defnyddio gan systemau rhybudd cynnar canolbwynt y DU a Chanolfan Fonitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (EMCDDA) fel rhan o system integredig.

**ATODIAD 1**

**Detholiad: Argymhellion o Adroddiad Cyngor Cynghorol y DU ar Gamddefnyddio Cyffuriau**

**Argymhelliad 1** – Dylai'r DU fod yn rhagweithiol wrth ddatblygu rhwydweithiau Ewropeaidd a rhyngwladol i fynd i'r afael â phroblem Sylweddau Seicoweithredol Newydd (SSN)

**Argymhelliad 4** - Byddai'n help wrth ddefnyddio Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 i gael datblygiadau gallu parhaus ym maes safonau cemegol, gallu dadansoddol a darganfod cyfansoddion yn fforensig

**Argymhelliad 8** – Darparu adnoddau ar gyfer ymchwil ar gemeg, ffarmacoleg, niwed difrifol (gwenwyndra) a niweidiau cymdeithasol SSN

**Argymhelliad 11** – Y llywodraeth i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd am SSN a rhoi strategaethau ar waith i leihau'r galw am SSN drwy gynnwys SSN mewn addysg camddefnyddio sylweddau mewn ysgolion; datblygu cynlluniau atal a dargedwyd a hefyd triniaeth i'r rheiny â phroblemau dwys (e.e. mewn Adrannau Brys) a dibyniaeth. Dylid defnyddio'r offerynnau canlynol i wrthsefyll amlder y defnydd o SSN:

- Hyfforddiant
- Monitro
- Gwybodaeth a chyngor i ddefnyddwyr SSN
- Gwybodaeth ehangach i'r cyhoedd

**Argymhelliad 12** - dylid cael buddsoddiad gan gomisiynwyr a chyrff ymchwil iechyd i'w galluogi gyda'i gilydd i adeiladu arfer tystiolaeth a lledaenu hwn

**Argymhelliad 13** – fod strategaethau i leihau'r galw yn cael eu datblygu i gynnwys addysg, atal ac ymyriadau triniaeth

Mae'r adroddiad llawn a'r argymhellion ar gael yn – http://www.homeoffice.gov.uk/publications/agencies-public-bodies/acmd1/acmdnps2011?view=Binary